Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

**Finance Committee**
**Y Pwyllgor Cyllid**

At Bobl i Ymgynghori â hwy

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

2 Chwefror 2012

**Galwad am dystiolaeth – Benthyca darbodus a dulliau arloesol o ddefnyddio arian cyfalaf.**

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn galw am wybodaeth a fydd o gymorth i lywio ei ymchwiliad i ddefnyddio dulliau benthyca darbodus a dulliau arloesol o ddefnyddio arian cyfalaf gan awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yng Nghymru. Bydd ein canfyddiadau'n cael eu rhannu â Chomisiwn Silk, i'w gynorthwyo yn ei waith ar atebolrwydd ariannol.

## Cylch gorchwyl yr ymchwiliad

Diben yr ymchwiliad hwn yw ystyried agweddau ar gyllido ac ariannu datganoli yng Nghymru gyda golwg ar lywio Rhan 1 o adroddiad Comisiwn Silk. Bydd y Pwyllgor yn ymchwilio i'r ddau fater penodol a ganlyn:

- I ba raddau y gellid rhoi pwerau benthyca i Lywodraeth Cymru, gan edrych ar wersi a ddysgwyd o brofiad awdurdodau lleol yn sgîl eu pwerau benthyca cyfredol; ac
- Ystyried dulliau arloesol y gellid eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i ysgogi arian cyfalaf ar gyfer prosiectau seilwaith, heb effeithio'n negyddol ar floc Cymru, gan gynnwys i ba raddau y byddai modd defnyddio pwerau benthyca cyfredol awdurdodau lleol a sefydliadau eraill.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn ar rai o'r pwyntiau a ganlyn neu bob un:

- y camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol i benderfynu ar eu terfynau benthyca darbodus ac i gadw golwg ar y terfynau hynny, a sut y gwneir hyn;

Ffon / Tel: 029 20 898149
E-bost / E-mail:
FinanceCommittee@wales.gov.uk

- lefelau amrywiol benthyca darbodus a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yng Nghymru ac unrhyw resymau dros y gwahaniaethau hynny;
- trosolwg o natur y prosiectau lle y defnyddiwyd benthyca heb gefnogaeth, ac a oes rhesymau penodol dros hyn;
- gwersi a ddysgwyd gan awdurdodau lleol am fenthyca darbodus gan gynnwys effaith ad-daliadau yn y tymor hir;
- sut y gellid defnyddio benthyca awdurdodau lleol i roi hwb i faint y cyfalaf sydd ar gael ar gyfer seilwaith Cymru;
- unrhyw gamau eraill a ystyrir gan awdurdodau lleol i ariannu gwariant cyfalaf;
- dulliau eraill o ysgogi arian cyfalaf a ystyrir gan Lywodraeth Cymru wrth baratoi ei Chynllun Seilwaith gan gynnwys y posibilrwydd o roi hwb i fenthyca gan awdurdodau lleol a sefydliadau eraill;
- ymchwilio i ddulliau cyfalaf arloesol a gynigwyd mewn rhannau eraill o'r DU, sut y cawsant eu datblygu a'u defnyddio, a phan fo'n bosibl, sut y maent wedi perfformio.

**Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor**

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor Cyllid yn y cyfeiriad uchod, i gyrraedd erbyn **dydd Iau, 1 Mawrth 2012**. Os ydych am gyfrannu ond yn pryderu na allwch wneud hynny erbyn y dyddiad cau, mynnwch air â Chlerc y Pwyllgor ar y rhif 02920 898597.

Os yw'n bosibl, anfonwch gopi electronig mewn fersiwn Word neu fformat Rich Text, drwy e-bost i'r cyfeiriad a ganlyn PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk erbyn **dydd Iau**, **1 Mawrth 2012**.

**Datgelu gwybodaeth**

*Dylai tystion fod yn ymwybodol y caiff unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir i'r Pwyllgor ei thrin fel eiddo'r Pwyllgor.*

*Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg a Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisïau / Cynlluniau Iaith ddarparu cyfraniadau dwyieithog, yn unol â'u polisïau gwybodaeth i'r cyhoedd.*

*Bwriad y Pwyllgor yw cyhoeddi tystiolaeth ysgrifenedig ar ei wefan, ac efallai y caiff darnau ohoni eu cynnwys wedyn yn yr adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol ac eithrio barn bersonol a data personol sy'n ymwneud â chi fel awdur y dystiolaeth, a'r rôl rydych yn darparu tystiolaeth ynddi (er enghraifft, teitl swydd), os yw hynny'n berthnasol.*

*Fodd bynnag, os ceir cais am wybodaeth (sy'n cynnwys data personol) a gyflwynwyd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd angen datgelu*

*gwybodaeth bersonol a ddarperir gennych chi, yn llawn neu'n rhannol. Gall hyn gynnwys data personol a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi (fel y disgrifir yn y paragraff uchod.*

*Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, neu eich bod chi, fel awdur y dystiolaeth, am beidio datgelu pwy ydych, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.*

Mae rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Cyllid a'i alwad am wybodaeth i'w chael drwy fynd i: www.cynulliadcymru.org

Yn gywir

**Jocelyn Davies**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

## Annex 1

Welsh Government
Colleges Wales
The Princes Trust
Wales Council for Voluntary Action
Bevan Foundation
Cymru Yfory
Economic and Social Research Council
Joseph Rowntree Foundation
Jobcentre Plus
Finance Wales
Big Lottery Fund
Hyfforddiant Parys Training
Careers Wales Association
Cyrenians Cymru
Wales Co operative Centre
Remploy Limited
Regeneration Investment Fund for Wales LLP
Cymdeithas Tai Eryri
Forestry Commission Wales
Menter Mon
Chwarae Teg
UK Steel Enterprise Limited
Parc Busnes Treorci
Sustrans
Higher Education Funding Council for Wales
Countryside Council for Wales
Skills for Justice
Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn
Waste and Resources Action Programme
Constructing Excellence in Wales
National Trust
Coalfields Regeneration Trust
Wales Co-operative Centre
Pakistan Association of Newport & Gwent Welsh Asian Council

**Local Authorities**

Blaenau Gwent County Borough Council
Bridgend County Borough Council
Caerphilly County Borough Council
Cardiff County Council
Carmarthenshire County Borough Council
Ceredigion County Council
City and County of Swansea
Conwy County Borough Council
Denbighshire County Borough Council
Flintshire County Borough Council

Gwynedd Council
Isle of Anglesey County Council
Merthyr Tydfil County Borough Council
Monmouthshire County Borough Council
Neath Port Talbot County Council
Newport City Council
Pembrokeshire County Council
Powys County Council
Rhondda Cynon Taff County Borough Council
Torfaen County Borough Council
Vale of Glamorgan Council
Wrexham County Borough Council

**Further Education Colleges**
Barry College
Bridgend College
Coleg Ceredigion
Coleg Glan Hafren
Coleg Gwent
Coleg Harlech
Coleg Llandrillo Cymru
Coleg Menai
Coleg Morgannwg
Coleg Powys
Coleg Sir Gâr
Deeside College
Gower College Swansea
Llysfasi College
Merthyr Tydfil College
Neath Port Talbot College
Pembrokeshire College
St David's Catholic College
Yale College Wrexham
Ystrad Mynach College

**Official Agencies**
Care Council for Wales
Children's Commissioner for Wales
Older People’s Commissioner for Wales
Equality and Human Rights Commission
Health and Safety Executive
Wales Audit Office
Welsh Language Board
Welsh Local Government Association

**Universities**
University of Wales
Aberystwyth University
Swansea University

University of Glamorgan
Bangor University
Cardiff Business School

**Other**
CBI Wales/Cymru
Alliance of Sector Skills Councils Wales
Wales TUC
Federation of Small Businesses
Venture Wales
NESTA

**Housing Organisations**

All Wales Chief Housing Panel (AWCHOP)
All Wales Housing Technical Panel
Age Cymru
Agorfa Cefni
Cadwyn Housing Association
Caerphilly CBC
Cardiff Council
Ceredigion Rural Housing Enabler
Chartered Institute of Housing Cymru
Citizens' Advice Bureau
Community Housing Cymru
Council of Mortgage Lenders
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Cymorth Cymru
Diverse Cymru
GENuS Consortium
Home Builders Federation
Landlord Accreditation Wales
Leadbitter Western Housing Division
Mid Powys Rural Housing Enabler
Mid-Wales Housing Association
National Landlords Association
NEA Cymru
Pembrokeshire Coast National Park Authority
Pembrokeshire Housing
Principality Building Society
Professor Steve Wilcox
Royal Institution of Chartered Surveyors
Royal Town Planning Institution Cymru
Savills (L&P) Limited
Seren Group
Shelter Cymru
Snowdonia National Park Authority
The National Homelessness Network

The Wallich
TPAS Cyrmu
Wales Co-operative Centre
Welsh Tenants Federation